OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1087 (Cy.95)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - *27 Ebrill 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *28 Ebrill 2009*
Yn dod i rym - - *20 Mai 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 30 a 146 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 20 Mai 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i geisiadau am grantiau sydd i'w cymeradwyo ar 20 Mai 2009 neu ar ôl hynny gan awdurdodau tai lleol yng Nghymru.

Diwygio Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996

2. Mae Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996(**3**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 3.

3.—(1) Mae Atodlen 3 wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) ar ôl paragraff 4A mewnosoder—

"**4B.** Any amount of working tax credit or child tax credit paid to a relevant person.";

(b) ar ôl paragraff 50 mewnosoder—

"**50A.** Where a member of the armed forces is—

(**1**) 1996 p.53.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 30 a 146 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672; *gweler* y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996). Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) mae'r swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 1996/2890. Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2004/253 (Cy.28), O.S. 2006/2801 (Cy.240) ac O.S. 2008/2377 (Cy.206).